# Atodiadau Technegol

# Tueddiadau, ysgogiadau ac anghydraddoldebau o ran darllen yn ystod plentyndod yn y DU

Arolwg Teuluoedd Cenedlaethol BookTrust

Mai 2026

**Cynnwys**

Methodoleg .......... 2

Sylfeini wedi'u pwysoli ar gyfer grwpiau oed a grwpiau incwm: arolygon 2021 a 2025 .......... 2

Sylfeini wedi'u pwysoli ar gyfer pob is-grŵp: arolwg 2025 .......... 4

Geirfa .......... 10

## Methodoleg

Cynhaliwyd Arolwg Teuluoedd 2025 BookTrust gan ddefnyddio sampl gynrychioliadol genedlaethol wedi'i phwysoli o 3,508 o rieni a gofalwyr plant 0-8 oed ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys pob grŵp incwm. Gwnaed y gwaith maes yn ystod hydref 2025.

Pennwyd cwotâu ar oedrannau plant (o fewn rhywedd), ac ar rywedd rhieni neu ofalwyr, rhanbarth, statws gweithio, ac incwm aelwyd. Cymhwyswyd pwysoliad i'r newidynnau hyn, â phwysoliad ychwanegol ar gyfer ethnigrwydd y plentyn ac addysg y rhieni, i adlewyrchu'r boblogaeth all-lein.

Mae'r adroddiad hwn yn manteisio ar drydydd cam Arolwg Teuluoedd BookTrust. Mae data cymaradwy ar gyfer teuluoedd plant 0-8 oed ar draws pob grŵp incwm ar gael o arolwg a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2021. Dangosir cymariaethau tueddiadau dim ond lle mae mesurau yn gymaradwy ar draws camau. Ni ofynnwyd yr holl gwestiynau yn yr un ffordd ym mhob cam o'r arolwg, felly rydym yn adrodd ar newid dros amser lle mae geiriad y cwestiwn wedi aros yr un fath, neu lle nad yw strwythur y cwestiwn wedi newid yn ddigon sylweddol i effeithio ar ddehongliad.

## Sylfeini wedi'u pwysoli ar gyfer grwpiau oed a grwpiau incwm: arolygon 2021 a 2025

Rhoddwyd pwysoliad ar waith yn Arolygon Teuluoedd 2021 a 2025, a oedd yn samplau cynrychioliadol cenedlaethol. Mae bandiau oed yn adlewyrchu dyluniad yr arolwg a'r cwmpas oed ym mhob cam. Mae cyfansymiau yn cynnwys nifer fach o achosion lle na ddatgelwyd incwm yr aelwyd. O ganlyniad, efallai na fydd cyfrifon is-grwpiau bob amser yn cyfateb yn union i'r cyfanswm.

Mae sylfeini wedi'u pwysoli ac efallai na fyddant yn cyfateb yn union i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

| Cam arolwg | Band oed | Incwm isel (sylfaen wedi'i phwysoli) | Incwm nad yw'n isel (sylfaen wedi'i phwysoli) | Cyfanswm (sylfaen wedi'i phwysoli) |
|---|---|---|---|---|
| **2021** | 12 mis neu lai | 210 | 207 | 418 |
| | 13-23 mis | 195 | 224 | 419 |
| | 2 oed | 224 | 216 | 440 |
| | 3 oed | 203 | 233 | 436 |
| | 4 oed | 227 | 238 | 465 |
| | 5 oed | 230 | 238 | 468 |
| | 6 oed | 205 | 244 | 449 |
| | 7 oed | 184 | 235 | 418 |
| | 8 oed | 149 | 271 | 420 |
| | Cyfanswm | 1826 | 2105 | 3932 |
| **2025** | 12 mis neu lai | 145 | 206 | 351 |
| | 13-23 mis | 165 | 221 | 386 |
| | 2 oed | 184 | 201 | 385 |
| | 3 oed | 145 | 241 | 386 |
| | 4 oed | 155 | 247 | 402 |
| | 5 oed | 158 | 247 | 405 |
| | 6 oed | 164 | 208 | 372 |
| | 7 oed | 182 | 218 | 400 |
| | 8 oed | 164 | 257 | 421 |
| | Cyfanswm | 1462 | 2046 | 3508 |

## Sylfeini wedi'u pwysoli ar gyfer pob is-grŵp: arolwg 2025

**Sylfaen:** Yr holl ymatebwyr â phlentyn penodol 0-8 oed (wedi'i phwysoli).

Cyfanswm y sylfaen wedi'i phwysoli = **3,508** oni nodir fel arall.

| Is-grŵp | Categorïau (N wedi'i bwysoli) | Sylfaen wedi'i phwysoli a ddefnyddiwyd (N) | Nodiadau ar sylfaen/byd |
|---|---|---|---|
| **Oed penodol y plentyn** | 12 mis neu lai **351**; 13–<24 mis **386**; 2 oed **385**; 3 oed **386**; 4 oed **402**; 5 oed **405**; 6 oed **372**; 7 oed **400**; 8 oed **421** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Rhywedd penodol y plentyn** | Bachgen **1,778**; Merch **1,728**; Anneuaidd / heb ei restru **2** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Perthynas i'r plentyn penodol** | Plentyn genedigol **3,352**; Llysblentyn **33**; Plentyn wedi'i fabwysiadu **32**; Plentyn maeth **10**; Gofal gan berthynas/cysylltiedig **59**; Arall **19** | 3,506 | 2 ar goll. |
| **Trefniant byw** | Drwy'r amser **3,368**; Rhywfaint o'r amser **135** | 3,504 | 4 ar goll. (Mae'r plant sydd wedi'u cynnwys yn byw gyda'r ymatebwr o leiaf rhywfaint o'r amser.) |
| **Gwlad/rhanbarth (Rhanbarth Swyddfa Llywodraeth gan gynnwys Cymru/Gogledd Iwerddon)** | Gogledd-ddwyrain Lloegr **152**; Gogledd-orllewin Lloegr **421**; Swydd Efrog a Glannau Humber **312**; Gorllewin Canolbarth Lloegr **318**; Dwyrain Canolbarth Lloegr **287**; Dwyrain Lloegr **404**; De-orllewin Lloegr **291**; De-ddwyrain Lloegr **548**; | 3,508 | Sampl lawn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llundain Fwyaf **505**; Cymru **154**; Gogledd Iwerddon **116** | | |
| **Math o ardal** | Trefol **2,754**; Gwledig **427** | 3,181 | Yn deillio o god post; **327 ar goll**. |
| **Yn byw gyda phartner** | Ydw **2,854**; Nac ydw **577**; Partner rhywfaint o'r amser/trefniant byw arall **54**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **23** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Incwm aelwyd (manwl)** | £10,000 neu lai **137**; £10,001–£14,000 **126**; £14,001–£17,000 **89**; £17,001–£19,000 **88**; £19,001–£23,000 **157**; £23,001–£26,000 **237**; £26,001–£28,000 **148**; £28,001–£33,000 **266**; £33,001–£42,000 **381**; £42,001–£50,000 **279**; £50,001–£70,000 **608**; Mwy na £70,000 **968**; Ddim yn gwybod **23** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Incwm aelwyd (wedi'i grynhoi)** | £28,000 neu is **989**; £28,001–£42,000 **652**; Mwy na £42,000 **1,868** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Aelwyd un/dau incwm** | Un oedolyn **1,102**; Dau neu fwy o oedolion **2,364**; Ddim yn gwybod **18**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **24** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Grŵp incwm isel** | Aelwyd incwm isel **1,462**; Aelwyd nad yw'n incwm isel **2,046** | 3,508 | Grwpiad deilliedig. |
| **Grŵp incwm isaf** | Aelwyd incwm isaf (hyd at £17,000) **353**; Aelwyd nad | 3,508 | Grwpiad deilliedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yw'n incwm isaf **3132**; Ddim yn gwybod **23** | | |
| **Grŵp blwyddyn ysgol (llwybr Cymru/Lloegr)** | Ddim yn yr ysgol/mewn meithrinfa **668**; Mewn meithrinfa **852**; Yn y Dosbarth Derbyn **374**; Blwyddyn 1 **388**; Blwyddyn 2 **370**; Blwyddyn 3 **400**; Blwyddyn 4 **325**; Ddim yn gwybod **15** | 3,392 | Gofynnwyd/llwybrwyd ar gyfer Cymru/Lloegr. |
| **Grŵp blwyddyn ysgol (llwybr Gogledd Iwerddon)** | Ddim yn yr ysgol/mewn darpariaeth cyn ysgol **32**; Mewn darpariaeth cyn-ysgol **24**; Blwyddyn 1 **11**; Blwyddyn 2 **14**; Blwyddyn 3 **20**; Blwyddyn 4 **9**; Blwyddyn 5 **7** | 116 | Gofynnwyd/llwybrwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon. |
| **Ethnigrwydd y plentyn** | Gwyn **2,593**; Cymysg/lluosog **224**; Asiaidd/Asiaidd Prydeinig **176**; Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig **342**; Arall **16**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **156** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Saesneg fel iaith gyntaf** | Oes **3,313**; Nac oes **183**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **13** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Defnydd o'r Gymraeg (Cymru yn unig)** | Rhugl **13**; Cryn dipyn **17**; Ychydig **23**; Ychydig eiriau **42**; Methu siarad/darllen Cymraeg **58**; Ddim yn gwybod **1** | 154 | Gofynnwyd/llwybrwyd ar gyfer Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perthynas y rhiant/gofalwr i'r plentyn** | Mam **1,853**; Tad **1,523**; Llysfam **10**; Llystad **21**; Mam fabwysiadol **9**; tad mabwysiadol **13**; Gofalwr maeth **9**; Gofalwr sy'n berthynas/cysylltiedig **49**; Arall **21** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Hunaniaeth rhywedd yr ymatebwr** | Dyn **1,604**; Menyw **1,904;** Anneuaidd **0;** Heb ei restru **0;** Byddai'n well gen i beidio ag ateb **0** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Anghenion Addysgol Arbennig (AAAA) / anableddau cyflwr iechyd hirdymor (plentyn)** | Cadarnhawyd **332**; Yn bryderus ond heb ei gadarnhau **354**; Nac oes **2,651**; Ddim yn gwybod **124**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **47** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Pryderon lleferydd, cyfathrebu ac iaith** | Oes **539**; Nac oes **2,809**; Ddim yn gwybod **123**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **37** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Statws gweithio (manwl, yr holl ymatebwyr)** | Cyflogedig llawn amser **2,068**; Cyflogedig rhan-amser **658**; Hunangyflogedig **160**; Di-waith yn chwilio am swydd **109**; Di-waith ddim yn chwilio am swydd/salwch hirdymor/anabl **105**; Rhiant llawn amser/ gwneuthurwr cartref **369**; Wedi ymddeol **7**; Myfyriwr/disgybl **32** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Gweithio/ddim yn gweithio** | Unrhyw weithio **2,886**; Ddim yn gweithio **622** | 3,508 | Grwpiad deilliedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Statws gweithio (ymatebwyr sy'n gweithio yn unig)** | Llawn amser **2,068**; Rhan-amser **658**; Hunangyflogedig **160** | 2,886 | Byd gweithio'n unig; ddim yn gweithio wedi'i eithrio trwy ddyluniad. |
| **Patrwm gweithio: oriau swyddfa traddodiadol (ymatebwyr sy'n gweithio yn unig)** | Ie **1,912**; Nage **974** | 2,886 | Byd gweithio'n unig. |
| **Patrwm gweithio: shifftiau yn ystod y dydd rheolaidd (ymatebwyr sy'n gweithio yn unig)** | Ie **609**; Nage **2,277** | 2,886 | Byd gweithio'n unig. |
| **Patrwm gweithio: shifftiau fin nos/nos (ymatebwyr sy'n gweithio yn unig)** | Ie **256**; Nage **2,629** | 2,886 | Byd gweithio'n unig. |
| **Patrwm gweithio: oriau afreolaidd (ymatebwyr sy'n gweithio yn unig)** | Ie **316**; Nage **2,570** | 2,886 | Byd gweithio'n unig. |
| **Patrwm gweithio: oriau tymhorol (ymatebwyr sy'n gweithio yn unig)** | Ie **90**; Nage **2,796** | 2,886 | Byd gweithio'n unig. |
| **Absenoldeb mamolaeth/tadolaeth (ymatebwyr sy'n gweithio yn unig)** | Ie **342**; Nage **2,497**; Ddim yn gwybod **20**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **27** | 2,886 | Byd gweithio'n unig. |
| **Gofal di-dâl** | Ie **579**; Nage **2,808**; Ddim yn gwybod **80**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **42** | 3,508 | Sampl lawn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Oriau gofalwr (ymhlith gofalwyr)** | 35+ awr/wythnos **186**; 15–<35 awr/wythnos **146**; <15 awr/wythnos **211**; Ddim yn gwybod **23**; Byddai'n well gen i beidio ag ateb **11** | 579 | Byd gofalwyr yn unig. |
| **Cymhwyster uchaf (manwl)** | Cynradd **97**; Uwchradd o dan 15 **185**; TGAU/GNVQ ac ati **466**; NVQ1–2 **335**; NVQ3/cyfateb i Safon Uwch **734**; NVQ4/ Tystysgrif Genedlaethol Uwch/Diploma Cenedlaethol Uwch /Diploma Addysg Uwch ac ati **985**; NVQ5/Meistr/Doethuriaeth ac ati **705** | 3,508 | Sampl lawn. |
| **Addysg (crynodeb)** | TGAU/Lefel O/CSE/NVQ1–2 **802**; Safon uwch neu gyfatebol **734**; Gradd/Meistr/Doethuriaeth **1,691**; Dim cymwysterau ffurfiol **282** | 3,508 | Grwpiad deilliedig. |
| **Statws graddedig** | Graddedigion **1,691**; Y rhai nad ydynt yn raddedigion **1,817** | 3,508 | Grwpiad deilliedig. |
| **Band oed yr ymatebwr** | 16–24 **169**; 25–34 **1,137**; 35–44 **1,738**; 45–54 **399**; 55–75 **65** | 3,508 | Grwpiad deilliedig (yn seiliedig ar fis a blwyddyn geni). |
| **Cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog (MALlC)** | Gwaelod (1) **811**; 2 **705**; 3 **579**; 4 **586**; Uchaf (5) **499** | 3,181 | Yn deillio o god post; **327 ar goll**. |

## Geirfa

Mae'r eirfa hon yn cynnwys mesurau arolwg a newidynnau deilliedig a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi. Mae rhai termau yn adlewyrchu eitemau holiadur uniongyrchol ac mae eraill yn cyfeirio at fesurau wedi'u grwpio neu gyfansawdd a grëwyd ar gyfer adrodd.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Plentyn penodol** | Dewisir un plentyn 0-8 oed fesul aelwyd ar gyfer cwestiynau manwl. Mae'r dethol yn dilyn proses strwythuredig i gydbwyso cynrychiolaeth yn ôl oed a statws gofal. Dim ond plant sy'n byw gyda'r ymatebwr o leiaf rywfaint o'r amser sy'n cael eu cynnwys yn yr arolwg. Mae pob cwestiwn lefel plentyn yn yr arolwg yn cyfeirio at y plentyn penodol hwn. |
| **Oed y plentyn** | Oed y plentyn penodol, wedi'i adrodd mewn misoedd ar gyfer babanod ac mewn blynyddoedd ar gyfer plant hŷn. Defnyddir oed i deilwra geiriad cwestiynau, opsiynau ymateb, ac i grwpio plant mewn bandiau oed ar gyfer dadansoddi. |
| **Rhiant neu ofalwr** | Mae rhieni a gofalwyr sy'n ymateb i'r arolwg yn cynnwys rhieni genedigol, llys rieni, rhieni mabwysiadol, rhieni/gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthynas neu gysylltiedig. |
| **Patrwm gweithio** | I ymatebwyr sy'n gweithio, patrwm nodweddiadol eu horiau gweithio, gan gynnwys oriau yn ystod y dydd safonol, gwaith shifft, gwaith fin nos neu nos, ac amserlenni afreolaidd neu dymhorol. |
| **Incwm aelwyd** | Cyfanswm incwm blynyddol cyfunol aelwyd cyn treth, a adroddir gan yr ymatebwr. Mae hyn yn cynnwys incwm o bob aelod o'r aelwyd a phob ffynhonnell incwm, fel cyflogau, ysgoloriaethau, pensiynau a budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol, difidendau, incwm rhent, cymorth plant ac alimoni. |

| | |
|---|---|
| **Cyfansoddiad yr aelwyd** | Pa un a yw incwm yr aelwyd yn dod o un oedolyn neu o ddau neu fwy o oedolion, a pha un a yw'r ymatebwr yn byw gyda phartner sydd hefyd yn gofalu am y plentyn. |
| **Band incwm yr aelwyd** | Fersiwn wedi'i grwpio o incwm aelwyd a adroddir a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng lefelau incwm. At ddibenion dadansoddi, mae incwm isel yn cyfeirio at deuluoedd ag incwm blynyddol o £28,000 neu is lle mae incwm yn dod o un oedolyn, neu £42,000 neu is lle mae incwm yn dod o ddau neu fwy o oedolion. Mae incwm isaf yn cyfeirio at deuluoedd ag incwm blynyddol o £17,000 neu is. Hysbysir trothwyon gan ddata Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog y Swyddfa Ystadegau Gwladol. |
| **Ethnigrwydd y plentyn** | Grŵp ethnig y plentyn penodol, a adroddir gan ddefnyddio categorïau cyfrifiad y DU lefel uchel safonol: Gwyn; Grwpiau ethnig cymysg neu luosog; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig; grŵp ethnig arall. Gofynnir i ymatebwyr gydsynio'n gyntaf i ddarparu'r wybodaeth hon a gallant ddewis peidio ag ateb. |
| **Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL)** | Pa un ai Saesneg yw iaith gyntaf yr ymatebwr ai peidio. Os nad dyna'r achos, gofynnir i'r ymatebwyr nodi eu hiaith gyntaf. |
| **Anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol (AAA/ADY). anableddau, neu gyflyrau iechyd hirdymor** | Pa un a oes gan y plentyn penodol anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol, anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor sy'n effeithio ar ei ddysgu neu ei weithgareddau beunyddiol yn seiliedig ar adroddiad rhiant neu ofalwr, gan gynnwys anghenion a nodwyd yn ffurfiol a phryderon na chafwyd diagnosis ar eu cyfer eto. |
| **Pryderon lleferydd, cyfathrebu ac iaith** | Pa un a oes gan yr ymatebwr bryderon am leferydd, cyfathrebu neu ddatblygiad iaith y plentyn. |

| | |
|---|---|
| **Bywyd teuluol a datganiadau cymorth** | Safbwyntiau'r ymatebwyr ar agweddau ar fywyd teuluol, a fesurir drwy gytundeb â chyfres o ddatganiadau gan ddefnyddio graddfa pum pwynt, o "dim o gwbl" (1) i "llawer iawn" (5), ag opsiwn 'ddim yn gwybod/amherthnasol'. Mae'r datganiadau hyn yn cwmpasu meysydd fel amser, trefnau, defnydd o sgriniau, blaenoriaethau rhianta a rhwydweithiau cymorth.<br>Wrth ddadansoddi, caiff ymatebion eu grwpio i adlewyrchu gwahanol lefelau o gytundeb. Er enghraifft:<br>Adroddir **amser cyfyngedig** a **phryder am ddefnydd o sgriniau** fel y gyfran sy'n dewis y ddau bwynt uchaf ar y raddfa (4-5).<br>Adroddir **diffyg rhwydwaith cymorth cryf** fel y gyfran sy'n dewis ymatebion is neu niwtral (1-3), sy'n dynodi cytundeb gwannach bod cymorth ar gael. |
| **Gweithgareddau y tu allan i'r cartref** | Pa mor aml mae'r ymatebwr wedi mynd â'r plentyn penodol i amrywiaeth o leoedd neu weithgareddau yn ystod y 12 mis diwethaf, a fesurir gan ddefnyddio graddfa amlder (o "mwy nag unwaith yr wythnos" i "byth", yn ogystal â "ddim yn gwybod"). Mae gweithgareddau yn cynnwys ymweld â llyfrgelloedd, canolfannau plant neu deuluoedd (gan gynnwys Hybiau Teuluol), mynd i grwpiau babanod neu blant bach, ymweld â lleoliadau celfyddydau neu gerddoriaeth, cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol, a chwarae awyr agored neu archwilio natur.<br>Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar **ymweliadau â llyfrgelloedd**, sy'n cael eu grwpio i'r categorïau wythnosol, misol, llai na misol a byth, ac yn cael eu hadrodd pa un a yw'r teulu yn aelodau o'r llyfrgell ai peidio. |

| | |
|---|---|
| **Trefn amser gwely** | Pa un a oes gan y plentyn penodol batrwm rheolaidd o fynd i'r gwely ar yr un adeg yn fras a chyflawni cyfres debyg o weithgareddau bob nos a pha mor gyson mae'r teulu yn cadw at drefn amser gwely'r plentyn. |
| **Gweithgareddau amser gwely** | Y gweithgareddau penodol y mae plentyn yn eu cyflawni yn rhain o'i drefn amser gwely. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau seiliedig ar ofal a hylendid, sgwrsio, rhigymau, straeon, llyfrau, a sgriniau. Gofynnir i rieni/gofalwyr sy'n hysbysu bod gan y plentyn drefn amser gwely yn unig. |
| **Mwynhad rhieni o ddarllen** | Faint mae'r ymatebwr yn mwynhau darllen ei hun. |
| **Mwynhad y plentyn o ddarllen** | Faint mae'r ymatebwr yn meddwl bod y plentyn penodol yn mwynhau darllen neu rannu llyfrau, wedi'i sgorio o "nid yw'n ei hoffi o gwbl" i "mae wrth ei fodd ag ef". Mae geiriad y cwestiwn yn addasu i oed y plentyn:<br>• 0–2 oed: rhannu, edrych ar neu chwarae â llyfrau (gan gynnwys llyfrau stori)<br>• 3–5 oed: rhannu, edrych ar neu ddarllen llyfrau<br>• 6–8 oed: darllen neu rannu llyfr |
| **Oed y darllenwyd ag ef gyntaf** | Yr oed pan ddarllenwyd i'r plentyn penodol gyntaf erioed neu y rhannwyd llyfr neu stori ag ef gan unrhyw oedolyn, yn seiliedig ar eitem un ymateb. Mae'r opsiynau ymateb yn amrywio o "cyn geni (yn ystod beichiogrwydd)" trwy oed mewn misoedd a blynyddoedd, ac yn cynnwys "ni ddarllenwyd ag ef erioed" a "ddim yn gwybod".<br><br>Defnyddir y newidyn hwn fel mesur pendant o bryd y dechreuodd darllen ar y cyd gyntaf ac i lunio grwpiau dadansoddol allweddol. Yn benodol, mae'n nodi pa un a ddarllenwyd â phlentyn erioed, sy'n penderfynu ar gynnwys cwestiynau dilynol am amlder, arferion, teimladau, a manteision darllen ar y cyd. Mae |

| | |
|---|---|
| | ymatebwyr sy'n dewis "ni ddarllenwyd ag ef erioed" yn cael eu heithrio o'r cwestiynau dilynol hyn.<br><br>Wrth ddadansoddi, mae "darllenwyd ag ef yn y flwyddyn gyntaf" yn cyfeirio at blant y darllenwyd â nhw gyntaf cyn eu bod yn 12 mis oed (gan gynnwys yn ystod beichiogrwydd, 0–6 mis, a 7–11 mis). |
| **Amlder darllen** | Pa mor aml mae'r plentyn penodol yn darllen gydag unrhyw oedolyn, a pha mor aml mae'n darllen yn benodol gyda'r ymatebwr, yn seiliedig ar raddfa amlder un ymateb yn amrywio o "sawl gwaith y dydd" i "byth". Ar gyfer plant 4-8 oed, mae hyn yn cyfeirio at ddarllen y tu allan i wersi ysgol. Gofynnir y cwestiwn hwn dim ond i ymatebwyr sy'n adrodd y darllenwyd â'r plentyn erioed ac mae'n eithrio plant na ddarllenwyd â nhw erioed, yn seiliedig ar lwybr o'r cwestiwn 'oed y darllenwyd ag ef gyntaf'.<br><br>Wrth ddadansoddi, defnyddir y newidyn hwn i lunio mesurau allweddol:<br>• **Darllen ar y cyd beunyddiol**: mae'r plentyn yn darllen neu'n rhannu llyfrau gydag oedolyn unwaith y dydd neu fwy<br>• **Darllen ar y cyd aml**: mae'r plentyn yn darllen neu'n rhannu llyfrau gydag oedolyn bedwar diwrnod neu fwy yr wythnos |
| **Pobl sy'n darllen gyda'r plentyn** | Pa oedolion sydd wedi darllen neu rannu llyfrau a straeon yn rheolaidd gyda'r plentyn penodol yn ystod y chwe mis diwethaf, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, teulu estynedig, darparwyr gofal plant a staff ysgol. Fe'i gofynnir dim ond i ymatebwyr sy'n adrodd y darllenwyd â'r plentyn erioed. |
| **Arferion darllen ar y cyd** | Yr hyn sy'n digwydd yn nodweddiadol pan fydd yr ymatebwr yn darllen neu'n rhannu llyfrau gyda'r |

| | |
|---|---|
| | plentyn. Fe'i gofynnir dim ond i ymatebwyr sy'n adrodd y darllenwyd â'r plentyn erioed. |
| **Arferion mynegiannol/chwareus** | Mesur deilliannol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i nodi'r defnydd o dechnegau perfformiadol neu synhwyraidd yn ystod darllen ar y cyd. Dosberthir bod ymatebwyr yn defnyddio arferion mynegiannol/chwareus pan fyddant yn adrodd eu bod yn cymryd rhan yn o leiaf un o'r canlynol: defnyddio gwahanol leisiau, tonau neu ystumiau, actio straeon gyda phypedau neu deganau, neu annog y plentyn i archwilio gweadau a nodweddion y llyfr. |
| **Arferion deialogaidd** | Mesur deilliedig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i nodi'r defnydd o dechnegau sgyrsiol a chyfranogol yn ystod darllen ar y cyd. Dosberthir fod ymatebwyr yn defnyddio arferion deialogaidd pan fyddant yn adrodd eu bod yn gwneud o leiaf un o'r canlynol: siarad am luniau neu'r stori, gofyn cwestiynau, annog darogan neu adalw, neu gysylltu'r stori â phrofiadau'r plentyn. |
| **Arferion addysgol** | Mesur deilliedig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i nodi'r defnydd o dechnegau sy'n canolbwyntio ar addysgu. Dosberthir fod ymatebwyr yn defnyddio arferion addysgol pan fyddant yn adrodd eu bod yn gwneud o leiaf un o'r canlynol: pwyntio at eiriau ar y dudalen neu esbonio synau, llythrennau neu eiriau. |
| **Arferion rhyngweithiol** | Mesur deilliedig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i nodi darllen ar y cyd cyfranogol. Mae'n cyfuno technegau chwareus/mynegiannol a deialogaidd. Dosberthir fod ymatebwyr yn defnyddio arferion darllen ar y cyd rhyngweithiol pan fyddant yn adrodd eu bod yn gwneud dau neu fwy o arferion o'r gyfres gyfunol hon. |
| **Teimladau am ddarllen ar y cyd** | Sut mae darllen neu rannu llyfrau gyda'r plentyn yn ei deimlo i'r ymatebwr, wedi'i fesur gan ddefnyddio |

| | |
|---|---|
| | graddfeydd pum pwynt un eitem ag angorau cyferbyniol (e.e., o "ddim yn ei hoffi o gwbl" i "wrth fy modd ag ef", "hawdd" i "anodd", "rhywbeth rwy'n ei ohirio" i "rhywbeth rwy'n edrych ymlaen ato", ac "yn cynnig boddhad" i "ddim yn cynnig boddhad"). Fe'i gofynnir dim ond i ymatebwyr sy'n adrodd y darllenwyr â'r plentyn erioed.<br><br>Wrth ddadansoddi, mae "lefelau uchel" o deimladau cadarnhaol (e.e., mwynhad) yn cyfeirio at ymatebwyr yn dewis un o'r ddau bwynt mwyaf cadarnhaol ar y raddfa (4 neu 5, gan gynnwys "wrth fy modd ag ef"). |
| **Agweddau a chredoau o ran darllen** | Safbwyntiau ymatebwyr ar ddarllen mewn bywyd teuluol, wedi'i fesur trwy gytundeb â chyfres o ddatganiadau gan ddefnyddio graddfa pum pwynt (anghytuno'n gryf i cytuno'n gryf). Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys swyddogaeth darllen yn y teulu presennol, dyheadau ar gyfer darllen y plentyn, swyddogaeth dybiedig yr ymatebwr o ran cefnogi darllen, ei brofiadau ei hun o ddarllen wrth dyfu i fyny, pa un a yw'n teimlo'n eglur ynghylch sut i gefnogi ei blentyn i fwynhau darllen, a'i ddymuniad am gymorth ychwanegol. |
| **Profiadau o fanteision darllen ar y cyd** | Manteision y mae ymatebwyr yn ei deimlo eu bod nhw neu eu plentyn wedi eu cael o ganlyniad i ddarllen neu rannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd, wedi'u mesur trwy ddewis y cwbl sy'n berthnasol o restr o ganlyniadau posibl. Mae'r rhain yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys perthynol (e.e., teimlo'n agosach neu'n fwy cysylltiedig), economaidd-gymdeithasol (e.e., llesiant, hyder, empathi), datblygiadol (e.e., cyfathrebu ac iaith, dysgu, dychymyg a chreadigrwydd), a phrofiad bob dydd (e.e., helpu'r plentyn i ymlacio neu gefnogi trefnau |

| | |
|---|---|
| | arferol). Fe'i gofynnir dim ond i ymatebwyr sy'n adrodd y darllenwyd â'r plentyn erioed. |
| **Heriau o ran darllen ar y cyd** | Ffactorau y mae ymatebwyr yn ei ddweud sy'n ei gwneud yn anoddach darllen neu rannu llyfrau a straeon gyda'r plentyn mor aml ag yr hoffent, wedi'u mesur trwy ddewis y cwbl sy'n berthnasol o restr o heriau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau ar amser a chapasiti (e.e., gwaith, cyfrifoldebau gofal, gofynion ar rieni sy'n cystadlu), heriau sy'n gysylltiedig â'r plentyn (e.e., cynnal diddordeb neu frwdfrydedd y plentyn), a gweithgareddau sy'n cystadlu (e.e., amser a dreulir ar ddyfeisiau digidol). |
| **Perchnogaeth o lyfrau** | Nifer y llyfrau gartref sy'n addas ar gyfer oed y plentyn penodol. |
| **Cofrestriad llyfrgell** | Pa un a yw'r ymatebwr a/neu'r plentyn penodol wedi'u cofrestru gyda llyfrgell. |